

**COFNODION CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWDY YN NEUADD GYMUNEDOL,  
DYFFRYN ARDUDWY AM 7.30 O'R GLOCH 02.06.15**

**6.1 YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Edward Griffiths (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd Wynne, Catrin Edwards.

**6.2 PRESENNOL**

Cyng. Owen Gwilym Thomas (Cadeirydd), John Ceri Evans, Emrys Jones, Margretta Cartwright, John Ellis Williams, Sian Edwards, Edward Williams, Eryl Jones-Williams.

**6.3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Dim cynhoeddiadau i'w gwneud.

**6.4 COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mai 5ed fel rhai cywir.

**6.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Item 5.9 (D) cytunwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda'r Comisiwn Elusenau ynglyn ar neuadd bentref.

**6.6 DATGAN DIDDORDEB**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb ar unrhyw fater.

**6.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu y canlynol:- Mai 11eg Fforwm Ardal Meirionnydd, Tremadog, 14eg Cyngor Llawn, Caernarfon, 15ed Cyngor Pobl Hyn, Porthmadog, 18ed 9-11 Ysgol Gynradd, Dyffryn Ardudwy, 12-3 trenau ychwanegol gorsaf dren Machynlleth, 6-9 Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy, 19ed Grwp Mynediad Meirionnydd, Dolgellau, 21ain Ysgol Ardudwy blwyddyn 11 cyflwyno proffil personol.

Gyda dau wyl y banc ar etholiad cyffredinol 'roedd mis Mai yn fis gweddol dawel. Gwnaeth cyflwyniad gan Alwyn Thomas, Cyfarwyddwr newydd Addysg, ddangos yr angen i arbed dros £4.3 miliwn yn y cyllid addysg. Mae newidiadau yn ysgolion ardal Bala a Dolgellau yn dilyn y newidiadau yn ardal Tywyn. Mae pwysau yn cael ei roi i weld ysgolion yn cyd weithio ag ar hyn o bryd mae 10 swydd gwag mewn dysgu yn Meirionnydd. Y Cyng. Dilwyn Morgan, Bala yw Cadeirydd newydd Cyngor Gwynedd gyda'r Cyng. Eric Jones, Groeslon yn Is-Gadeirydd newydd. Mae tri Cynghorydd Llais Gwynedd wedi ymuno a Blaid Cymru i roi 38 o seddi i Blaid a mwyafrif ar y Cyngor ag o ganlyniad i hyn bydd newid i bwyllgorau yn y dyfodol. Y Cyng. Tom Ellis, Trawsfynydd yw Cadeirydd newydd y pwyllgor gwasanaethau democrataidd. Gafodd y Cyng. Liz Saville Roberts ei llongyfarch ar ei ethol yn A.S. i olynu Elfyn Llwyd. Cafwyd adroddiad gan swyddogion tai cymdeithasol o CCG a Cynhefin ar ddyfodol cynlluniau tai cymdeithasol a mae CCG yn uwchraddio unedau lloches gan gynnwys Pentre Uchaf yn Dyffryn Ardudwy a mae Cynhefin i adeiladu 40 unedau gofal ychwanegol yn Porthmadog. Mae unedau lloches yn nawr ar gael i denantiad oed 55 gyda rhai unedau yn rhai dwbwl. Gafodd y Swyddogion i gyd o Grwp Mynediad Meirionnydd eu ail ethol. Mae gan y Grwp o gwmpas £1,300 wrth gefn ag nid oedd angen gofyn i Gynghorau Cymuned am gymorth am yr ail flwyddyn yn olynol.

Datganwyd pryder bod Gwynedd wedi penderfynnu dileu y swydd o Swyddog Mynediad Anabl yn dilyn ymddeoliad Dylan Rhys Jones. Mae uchder y platfform ar stesion Dyffryn Ardudwy wedi ei gwblhau ag yn ei gwneud yn haws i'r henoed, yr anabl a rhiant gyda pram i fynd ar y tren. Mae yn rhaid i Llywodraethwyr Ysgol yn nawr fonitro athrawon, ag mi wnes i gario allan fy monitro ar y 18ed o Fai ac adrodd yn nol i'r cyfarfod Llywodraethwyr llawn yn y nos. Mae presenoldeb gan ddisgyblion wedi mynd i fyny yn Ysgol Dyffryn Ardudwy o 91.1% i 93.3% a mae presenoldeb gan ddisgyblion yn cael ei archwilio yn gyson gan yr ysgol. Mae y Llywodraethwyr yn gobeithio bydd y presenoldeb yn parhau i godi a mae 55 o ddisgyblion yn yr ysgol gyda 15 ychwanegol yn dod i mewn yn mis Medi a neb o blwyddyn 6 yn gadael, ag felly all yr ysgol fod i fyny i 70 o ddisgyblion a mae yn bwysig bod y Cyngor yn cael ei gynrychioli ar y Llywodraethwyr. Mae y Pennaeth Ann Jones wedi bod yn rhedeg dwy ysgol (Talsarnau a Dyffryn Ardudwy) am y ddwy flynedd diwethaf ag mae wedi hysbysu y Llywodraethwyr y bydd yn dod yn nol i Ddyffryn Ardudwy yn unig a

bod yn llawn amser o fis Medi. 'Roedd yn anrhydedd a balchder gennyf i fynychu cyflwyniad proffile blwyddyn 11 Ysgol Ardudwy lle 'roedd amryw o ddisgyblion o'r ardal hon yn gwneud yn dda iawn. Gafodd y cyflwyniadau eu gwneud gan Mr. Owen Owens, Is Gyfarwyddwr Addysg yn lle Mr. Alwyn Thomas, Cyfarwyddwr a oedd yn methu bod yn bresennol. Byddaf yn gwneud adroddiad arwahan ar y tren 8.00 o'r gloch newydd o Bermo sydd ddim yn aros yn y pentrefi. 'Rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfod blynyddol y neuadd bentref a bydd yr adroddiad yn cael ei rhoi gan y Cyng. O. G. Thomas, Cadeirydd. Ni all y grwp adfywio gychwyn yn swyddogol tan mis Hydref er mwyn bod yn gyfiawn gyda'r Cyfansoddiad. 'Rwyf wedi mynychu amryw o gyfarfodydd Gwynedd ynglyn a torriadau a arbedion effeithiol a bydd adroddiad arwahan ar gael. Mae wedi cael ei gadarnhau bydd primiwn parcio ychwanegol yn cael ei ychwanegu yn Bermo a bydd y primiwn hwn i fyny at 20% yn cael ei roi i Gyngor Tref Bermo a gall hyn feddwl taliadau parcio ychwanegol i fobl Dyffryn Ardudwy a Talybont pan maen't yn ymweld a Bermo. Gafodd y polisi primiwn hwn ei gymeradwy gan Gabinet Cyngor Gwynedd. Cytunwyd anfon llythyr at Elfyn Llwyd yn diolch iddo am ei wasanaeth fel Aelod Seneddol dros y blynyddoedd diwethaf.

## **6.8 CEISIADAU CYNLLUNIO**

### **Adeiladu estyniad unllawr i ffrynt yr eiddo i'w ddefnyddio fel derbynfa ar gyfer y parc gwersylla - Tyddyn Goronwy, Talybont (NP5/58/210G)**

Cefnogi y cais hwn.

### **Cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Defnydd Presennol) i ddefnyddio tir ar gyfer lleoli 3 carafan i'w defnyddio fel llety preswyl - Llecheiddior Isaf, Talybont (NP5/58/LU505A)**

Cytunwyd bod pawb oedd eisiau yn anfon eu sylwadau i'r Parc ynglyn ar cais uchod.

### **Dyluniad diwygiedig ar gyfer ty a gymeradwywyd o dan NP5/58/111D dyddiedig 3.8.05 - Tir ger Coed y Glyn, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/111E)**

Cefnogi y cais hwn.

### **Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**

Adeiladu estyniad ffrynt unllawr, newidiadau i'r teras a stepiau - Arosfa, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/263A) - caniatáu

## **6.9 MATERION YN CODI**

### **A Ethol Swyddogion am y flwyddyn 2015/16:-**

Cadeirydd:- Cyng. Owen Gwilym Thomas

Is-Gadeirydd:- Cyng. Edward Griffiths

Pwyllgor Elin Humphries:- Is-Gadeirydd a'r Cyng. Catrin Edwards

Is-bwyllgor cynllunio:- Cyngor llawn

Is-bwyllgor cyllid:- Cyngor llawn

Is-bwyllgor fynwent:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. John Ellis Williams a Geraint Lloyd Wynne

Is-bwyllgor seddi:- Is-Gadeirydd, Cyng. Emrys Jones a Edward Williams

CCTV:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Catrin Edwards ac Eryl Jones Williams

Is-bwyllgor hen barc chwarae:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. John Ellis Williams, Edward Williams a John Ceri Evans

Un Llais Cymru:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Cyng. Eryl Jones Williams fel enw wrth gefn

Llywodraethwyr ysgol gynradd:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Emrys Jones ac Edward Williams

Llywodraethwyr ysgol gynradd:- Cyng. Emrys Jones

### **B Cynllun Busnes**

Adroddwyd bod £4,559.70 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd.

### **C Camerau CCTV**

Ddim i'w drafod ar y mater uchod.

## **D Neuadd Bentref**

Cafwyd wybod bod cyfarfod blynyddol o bwyllgor y neuadd bentref wedi cael ei gynnal ar yr 21ain o Fai a bydd mwy o adroddiad ar gael mis nesa. Hefyd cafwyd wybod bod y container yn cyrraedd yr wythnos hon.

## **E Archwilio'r llochesi bws, mynwentydd a parciau chwarae**

Yn absenoldeb y Cyng. Edward Griffiths adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi gwneud yr archwiliad uchod ar ran y Cyngor ac adroddwyd fel a ganlyn ar ei ran - bod y llochesi bws yn iawn ond bod angen tocio yn nol y gordyfiant a gwaredu y drain ger y lloches bws ger yr hen barc chwarae a cytunwyd gofyn i ddisgyblion Ysgol Ardudwy wneud y gwaith hwn fel rhan o'i wythnos gweithgareddau, 'roedd y ddau barc chwarae yn daclus ac yn cael gofal da ond 'roedd angen peintio y seddi yn y parc chwarae newydd a cytunwyd bod y pwyllgor seddi yn delio gyda hwn, 'roedd y fynwent gyhoeddus yn iawn ond 'roedd angen tocio y gwrych a cytunwyd gofyn i Mr. Gary Martayn ddelio gyda'r mater yma. 'Roedd mynwent Llanddwywe a mynwent Llanenddwyn yn iawn ond bod y gwair angen ei dorri, 'roedd gardd Penybont yn iawn ond bod angen tocio yn nol brigau oedd yn tyfu dros un sedd, a gordyfiant ger y llwybr a cytunwyd gofyn i Mr. Gary Martayn ddelio gyda'r mater yma, ac 'roedd Parc Morlo yn iawn ond bod y llwybr angen ei chwynu a cytunwyd gofyn i Mr. Gary Martayn ddelio gyda'r mater yma. Cytunodd y Cyng. Emrys Jones wneud yr archwiliad y mis nesa.

## **F Cyfarfod Un Llais Cymru - Bala 13.5.15**

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu y cyfarfod uchod ar ran y Cyngor ac adroddodd fel a ganlyn - datganwyd gan y Cadeirydd ei fod yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod ag oherwydd hynny yr oedd wedi colli y darn cyntaf o'r cyfarfod blynyddol. Cafodd y noson ei chadeirio gan y Cyng. Heilyn Williams a'r penderfyniad olaf o'r cyfarfod blynyddol oedd penderfynnu dyddiadau i'r cyfarfodydd nesa sef y 23ain o Fedi ar 25ain o Dachwedd yn y pafiliwn criced yn Nolgellau. 'Roedd yr Aelodau wedi cael anerchiad gan Mr. Dilwyn Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd ar yr arbedion sydd angen eu gwneud. Mae angen arbed £34 miliwn o nawr i 2018 ac mae'n debyg y bydd posib arbed £15 milwin wrth fod yn fwy effeithiol, bydd torri £4.3 miliwn ar ysgolion bydd hyn yn gadael £14.7 miliwn a bydd hyn yn dod o doriadau. Mae trichwarter cyllid Cyngor Gwynedd yn mynd ar addysg, gofal oedolion, priffyrdd, cynllunio, casglu gwastraff ar amgylchedd. Mae nifer yr henoed yn codi'n sylweddol bob blwyddyn rhyw 10% bob 5 mlynedd. Yr ydym yn gwario £25 miliwn eleni ac erbyn 2024 bydd yn £29 miliwn ac yn y blaen. Mae'r gyllid yr oeddem yn ei dderbyn yn 2013/14 gan y Llywodraeth yn lleihau bob blwyddyn, ag maen't yn rhagweld erbyn 2017/18 bydd i lawr i £214 miliwn lleihad o £20 miliwn tra mae'r diffyg erbyn hynny wedi codi i £50 miliwn. Mae'r rhagolygon yn ddu iawn gyda torriadau ym mhobman. Bu esboniad o'r sefyllfa yn Newyddion Gwynedd dan y teitl Her Gwynedd ag 'roedd tua 65% wedi ei ddarllen, ag allan or 65% yr oedd tua 90% yn dweud eu bod yn ei ddeall.

## **6.10 GOHEBIAETH**

### **A Cyngor Gwynedd - Cefnogaeth Gorfforaethol**

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn gwahodd Aelodau o'r Cyngor i Rhan 2 Ymarferiad Ymgysylltu Her Gwynedd a fydd yn cael ei gynnal yn Nolgellau ar yr 8ed o Fehefin neu yn Mhorthmadog ar yr 8ed o Orffennaf ac yn cychwyn am 6.00 o'r gloch. Cytunodd y Cyng. Owen Gwilym Thomas a John Ceri Evans gynrychiolir Cyngor yn y cyfarfod hwn.

### **B Ysgol Ardudwy**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn gofyn a fyddai yn bosib i rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 gwneud gwaith yn y gymuned ar y 6ed a 7ed o Orffennaf. Cytunwyd gofyn iddynt wneud gwaith o dorri y drain a'r gordyfiant o amgylch y lloches bws ger yr hen barc chwarae ag hefyd peintio gatiâu sydd yn y parc chwarae newydd.

### **C Parc Cenedlaethol Eryri**

Wedi cael ateb gan yr uchod ynglyn a gwaith adeiladu oedd yn cael ei wneud tu nol i Henborth, Talybont ag yn datgan bod caniatad cynllunio wedi cael ei ganiatau ar gyfer newidiadau ac estyniad i ddarparu cyfleusterau ar gyfer

person anabl ac adeiladu garej arwahan yn Henborth yn Ebrill 2014. Ac hefyd yn datgan ar ol ymweld ar safle bod y gwaith hyn yn cael ei wneud ond ddim gwaith adeiladu arall yn cael ei wneud ymysg y coed ond bod tomen fawr o gerrig a deunyddiau eraill yn cael eu storio yn y fan yma. Oherwydd bod y caniatad cynllunio wedi cael ei ganiatau ar yr amod fod y coed yn cael eu diogelu tra bod gwaith yn cael ei gario allan ar y safle a bod dim deunyddiau yn cael eu storio ar dir gerllaw'r coed maen't wedi cynghori y perchennog i symud yr holl ddeunyddiau i fan arall o fewn cwrtill yr eiddo a dylai hyn gael ei gwblhau cyn diwedd mis yma.

#### **D Parc Cenedlaethol Eryri**

Wedi cael ateb gan Mr. Edward Jones, Pennaeth Gwasanaeth Eiddo y Parc Cenedlaethol ynglyn a maes parcio Traeth Bennar ag yn datgan ei fod wedi trafod cais y Cyngor i ail gysidro eu penderfyniad i godi tal ar fobl lleol i barcio yn y maes parcio hwn gyda'r Cyfarwyddwr ac mae'r mater yn cael ei drafod yn y Tim Rheoli nesaf ddechrau Mehefin fel y gallant ymateb yn llawn i'r cais ag y bydd ef mewn sefyllfa i roi ymateb pellach o fewn 14 diwrnod gwaith.

#### **E Mr. Liam Charlton**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu yr Aelodau ei fod yn ymddiswyddo fel Aelod o'r Cyngor. Derbyniwyd ei benderfyniad a cytunwyd bod y Clerc yn hysbysu y Swyddog Cofrestru yn Gaernarfon ynglyn a hyn. Dywedodd y Clerc ei bod wedi anfon gair o ddiolch am ei wasanaeth i'r Cyngor i Mr. Charlton yn barod.

#### **F Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy**

Adroddwyd bod e-bost wedi ei dderbyn gan yr uchod yn gofyn am gymorth ariannol tuag at gostau prynu a gosod giat am fod rhai rhieni yn dod a ceir i fyny'r fynedfa sydd yn creu pryder ar ran diogelwch y plant ag eu bod wedi penderfynnu codi giat fawr ac un fach wrth ei hochr i atal y plant rhag rhedeg i'r ffordd fawr a buasai hefyd yn atal ceir i ddod i fyny'r ffordd. Cafwyd cynnig gan y Cyng. Edward Williams yn hytrach na rhoi cyfraniad ariannol y buasai yn gosod y giat (gan gynnwys archebu y deunyddiau i wneud hyn) ar ran y Cyngor a derbyniwyd y cynnig caredig yma. Ni chymerodd y Cyng. Eryl Jones Williams ran yn y drafodaeth ynglyn ar mater yma.

#### **6.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Adroddodd y Trysorydd bod £14,159.32 yn y cyfrif rhedegol, £1,318.63 yng nghyfrif y cae chwarae, £7,533.36 yn y cyfrif wrth gefn a £8.00 yng nghyfrif y Cadeirydd.

#### **Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Mr. Dewi Evans	-	£60.00	- edrych ar ol y ddau barc chwarae
Mrs Annwen Hughes	-	£147.00 (cyflog) + £177.99 costau	= £324.99
Mr. Gary Martayn	-	£825.00	- torri gwair
Mr. O.G.Thomas	-	£109.42	- giat newydd i'r parc chwarae a costau teithio
Y Tebot Arian	-	£491.96	- ad-daliad grant gwefan y Cyngor

#### **Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf

#### **Ceisiadau am gymorth ariannol**

Grwp Dizzie Dancers	-	£100.00
Pwyllgor Neuadd Bentref	-	£1,500.00
Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy	-	cytunwyd gosod y giat a talu am y deunydd i'w gosod

**6.12 UNRHYW FATER ARALL**

Cytynwyd anfon llythyr at Edwina Hart A.C., yn datgan siom bod y tren 8.00 o’r gloch nos ddim yn stopio yn y gorsafoedd i gyd ar hyd lein y Cambrian.

Cytunwyd rhoi aelodaeth o Cyhoeddusrwydd Bermo ar yr agenda mis nesa.

**ARWYDDWYD.....Cadeirydd**

**DYDDIAD.....**